

2014 Rhif (Cy.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

**Gorchymyn Cefnffordd yr A483
(Heol Pontarddulais, Tŷ-croes,
Rhydaman, Sir Gaerfyrddin) (Dileu
Cyfyngiad a Therfyn Cyflymder 40
MYA) 2014**

Gwnaed 27 Mai 2014

Yn dod i rym 29 Mai 2014

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Abertawe - Manceinion (yr A483) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 82(2), (83)(1), 84(1) a (2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “Deddf 1984”), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, ac wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn:-

Enwi a chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 29 Mai 2014. Enw'r Gorchymyn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Heol Pontarddulais, Tŷ-croes, Rhydaman, Sir Gaerfyrddin) (Dileu Cyfyngiad a Therfyn Cyflymder 40 MYA) 2014.

Cyfyngiad

2. Cyfarwyddir bod y darn hwnnw o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn ffordd gyfyngedig at ddibenion Adran 81 o Ddeddf 1984.

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn hwnnw o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

Dirymu

4. Dirymir drwy hyn Orchymyn Cefnffordd yr A483 (Ffordd Ddynesu o'r De i Dŷ-croes, Rhydaman, Sir Gaerfyrddin) (Terfyn Cyflymder 40 & 50 mya) 2002(2).

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 27 Mai 2014

R MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p.27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (2) O.S. 2002/2664/Cy.256

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 119 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4297 ger Cyffordd Llanedi hyd at bwynt 1044 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Ddu.

ATODLEN 2

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1044 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Ddu at bwynt 78 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â Heol Ddu gan gynnwys y ffordd ymadael wrth ei chyffordd a'r B4297 tua'r gogledd i Gapel Hendre.